

Canllawiau i'r aelod o staff

Cofiwch ddarllen y canllawiau yma cyn llenwi'r holiadur

Mae canllawiau diweddar y Llywodraeth ynghylch strategaeth adfer y wlad yn fodd inni roi cychwyn ar ein cynlluniau ar gyfer dychwelyd i'r campws, neu barhau â'r trefniadau i weithio o bell. Bydd hynny'n cynnwys adolygu a gweithredu o ran sut yr awn ati i weithio'n hyblyg ac yn ddoethach ar ôl Covid-19.

Caiff yr adolygiad hwn ei gynnal trwy ofyn i chi fel aelod o'r staff lenwi holiadur byr a thrafod wedyn gyda'ch rheolwr. Gofynnwn i chi gyflwyno'r atebion yn syth i'ch Rheolwr. Mewn un rhan o'r holiadur gofynnwn i chi rannu eich barn ynglŷn â pharhau i weithio gartref, ac unrhyw awgrymiadau sydd gennych ynghylch y Brifysgol. Caiff yr atebion i gwestiynau'r adran hon eu rhannu gyda'r Adnoddau Dynol.

Mae dwy fersiwn o'r holiadur;

Y naill yn rhagweld y byddwch yn parhau i weithio gartref

Y llall yn rhagweld y bydd yn ofynnol i chi gyflawni rhai neu'r cyfan o'ch dyletswyddau ar y campws yn gorfforol.

Mae linc i'r ddau holiadur ar tudalennu gwe [Adnoddau Dynol](#)

Os hoffwch fersiwn papur cysylltwch a Adnoddau Dynol.

Mae tri amcan yn gyffredin i'r ddwy;

- i) Adolygu sut mae pethau wedi bod yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod clo, yn benodol felly os bu'r staff yn gweithio gartref, a chael eu barn a'u hadborth ynglŷn â nifer o agweddau megis sut maen nhw'n teimlo eu bod nhw wedi cyflawni eu rôl, eu hiechyd meddwl hwythau.
- ii) I gael adborth gan y staff, er mwyn trafod y trefniadau gweithio wrth inni ymadael â'r cyfnod clo ac i'r Flwyddyn Academaidd nesaf, a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol i wybod pa gamau pellach y bydd angen eu cymryd, a phenderfynu ynghylch y ffyrdd mwyaf priodol o weithio o hyn allan.
- iii) I gael adborth gan yr unigolion ynglŷn â ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol. Fel llawer o gyflogwyr, rydym yn dechrau ar gyfnod newydd. Dyma gyfle i gofleidio ffyrdd ystwyth a hyblyg newydd o weithio ac i barhau â rhai o'r arferion llwyddiannus yr ydym eisoes wedi'u rhoi ar waith dros yr wythnosau diwethaf. Dyma gyfle i ymgynghori â'r holl staff i ddeall eu barn, eu profiadau a'u dewisiadau mewn perthynas â'r wythnosau a'r misoedd diwethaf, a'r modelau gweithio y dylem eu hystyried ar gyfer y dyfodol agos a'r tymor hwy. Dyma gyfle i gasglu data ystyrion i helpu llywio ein ffordd o feddwl a ninnau'n cofleidio dulliau mwy hyblyg, iach ac ystwyth o weithredu.

I'r staff hynny a fydd yn gorfod gwneud eu gwaith ar y campws mae 4 cwestiwn ychwanegol i'r holiadur;

- *Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi datblygu rhestr o'r cyflyrau iechyd hynny sy'n diffinio unigolyn fel un sy'n Eithriadol Fregus yn Glinigol. Mae'r rheiny wedi eu rhestru isod, a ydych chi'n perthyn i unrhyw un o'r categorïau?*
- *Mae yna hefyd gategorïau sy'n Fregus yn Glinigol, sy'n nodi'r rhai sydd mewn risg cymedrol o'r coronafirws. Mae'r rheiny wedi'u rhestru isod, a oes unrhyw un o'r rhain yn berthnasol i chi?*
- *Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod risg COVID-19 yn uwch i grwpiau BAME (Du, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig) ond mae'r berthynas rhwng ethnigrwydd ac iechyd yn gymhleth ac yn debygol o fod yn sgil cyfuniad o ffactorau. Os ydych chi mewn grŵp BAME ac yn poeni am y risg i chi, nodwch hynny isod*
- *Ydych chi'n byw gyda rhywun a fu'n gwarchod (ar ôl derbyn llythyr gan feddyg teulu neu Brif Swyddog Meddygol)?*
- *Wrth feddwl am ddychwelyd i'r campws i wneud rhai o'ch dyletswyddau neu'r cyfan ohonynt, a oes gennych chi bryderon iechyd ynghylch y gwaith sydd angen eu trafod / cefnogaeth ychwanegol?*

Rydym yn gofyn i Reolwyr Llinell ymgynghori â phob aelod o'u tîm fel ein bod yn deall eich meddyliau a'ch syniadau chi ynghylch y sefyllfa bresennol a'r dyfodol. Gwneir hynny trwy ofyn i chi lenwi holiadur byr, a trafod wedyn gyda'ch Rheolwr, a chyfle i chi ymhelaethu ar unrhyw wybodaeth a rannwyd.

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau sy'n gofyn barn am weithio o bell (Adran 8) wedi'u llunio fel bod yr atebion hefyd yn cael eu rhannu â'r AD, er yn ddiennw. Gwneir hynny'n glir yn yr holiadur. Mae gweddill yr holiadur yn llywio'r drafodaeth rhwng yr aelod o'r staff a'r rheolwr.

Mae gwahanol adrannau i'r holiadur, a dyma drosolwg byr o bob un;

Gwybodaeth ynghylch Teithio Rydym yn chwilio am wybodaeth amdanoch yn teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith ac i safleoedd neu swyddfeydd eraill sy'n gysylltiedig â'r gwaith, ac yn ystyried dewisiadau amgen sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol cyfredol, a dim ond os oes angen teithio.

Ansawdd Technoleg Gwybodaeth gartref Hoffem adolygu eich sefyllfa chi o ran yr offer TG sydd gennych gartref i ddeall a fyddai'n addas at weithio gartref yn y dyfodol pe bai hynny'n briodol, ac yn addas i'ch dewisiadau chithau.

Amgylchedd y Cartref Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i archwilio amgylchedd y cartref fel amgylchedd gwaith.

Cyfrifoldebau Gofalu Mae gan lawer o'r staff gyfrifoldebau gofalu ac ymrwymadau gwaith, ac felly dyma gyfle i nodi sut mae hynny wedi effeithio ar eu gwaith, y trefniadau a roddwyd ar waith ac ati.

Lles ac Iechyd Cyfle i chi ddweud wrth eich rheolwr sut ydych chi. I lawer o unigolion bydd lles wedi amrywio trwy gydol y cyfnod clo ac efallai fod salwch, iechyd meddwl, pryderon ariannol neu brofedigaeth wedi effeithio arnynt. Cymerwch amser i ateb y cwestiynau hyn a siarad yn agored ynghylch sut rydych chi wedi bod yn teimlo a pha gefnogaeth sydd ei hangen arnoch o hyn allan.

Os ydych chi'n dychwelyd yn gorfforol i'r campws ar gyfer y cyfan neu ran o'ch swydd, gofynnwn i chi hefyd rannu unrhyw bryderon a gwendidau iechyd. Mae'n bwysig eich bod yn ateb y cwestiynau hyn fel y gellir ystyried a oes angen cymryd camau pellach, er enghraifft cwblhau Asesiad Risg a / neu gael mewnbwn gan ymarferydd Iechyd Galwedigaethol y Brifysgol.

Er mwyn eich helpu chi ateb y cwestiynau, mae canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol wedi'u cynnwys yn yr holiadur, ond fe'u nodir yma hefyd;

Gweithwyr sy'n Eithriadol Fregus yn Glinigol (CEV).

- Derbynwyr trawsblaniad organau soled
- Pobl â chanserau penodol:
- Pobl â chanser sy'n cael cemotherapi gweithredol neu radiotherapi radical ar gyfer canser yr ysgyfaint
- Pobl â chanserau'r gwaed neu fêr yr esgyrn fel lewcemia, lymffoma neu myeloma sydd ar unrhyw gam o'r driniaeth
- Pobl sy'n cael imiwnotherapi neu driniaethau gwrthgyrff parhaus eraill at ganser
- Pobl sy'n cael triniaethau canser eraill sydd wedi'u targedu a all effeithio ar y system imiwnedd, fel atalyddion protinau cinas neu atalyddion PARP
- Pobl sydd wedi cael trawsblaniad mêr yr esgyrn neu fôn-gelloedd yn ystod y 6 mis diwethaf, neu sy'n dal i gymryd cyffuriau gwrthimiwnedd
- Pobl â chyflyrau anadlol difrifol gan gynnwys ffibrosis systig, asthma difrifol a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)
- Pobl â chlefyd organ sengl difrifol (e.e. yr Afu, y Galon, yr Arennau, Niwrolegol).
- Pobl â chlefydau prin a gwallau metaboledd cynhenid sy'n cynyddu risg heintiau'n sylweddol (fel Imiwnoddiffygiant Cyfun Difrifol (SCID), cryman-gell homosygaid).
- Pobl sydd ar therapïau gwrthimiwnedd sy'n ddigon i gynyddu risg haint yn ddirfawr.
- Merched beichiog sydd â chlefyd y galon sylweddol, cynhenid neu gaffaeledig.
- Plant hyd at 18 oed sydd â chlefyd y galon sylweddol, cynhenid neu gaffaeledig

Bregus yn Glinigol (CV)

Pobl sydd mewn risg cymedrol o'r coronafirws:

- yn 70 oed neu'n hŷn
- yn feichiog
- mae cyflwr ar yr ysgyfaint nad yw'n ddifrifol (fel asthma, COPD, emffysema neu bronchitis)
- clefyd y galon (megis methiant y galon)

- diabetes

clefyd cronig yr arenau

- clefyd cronig yr iau, megis hepatitis
- cyflwr sy'n effeithio ar yr ymennydd neu'r nerfau (megis clefyd Parkinson, clefyd motor niwron, sglerosis ymledol neu barlys yr ymennydd)
- cyflwr sy'n golygu bod risg uchel o ddal heintiau
- yn cymryd meddyginiaeth a all effeithio ar y system imiwneidd (fel dosau isel o steroidau)
- yn ordew iawn (BMI yn 40 neu'n uwch)

Eich barn ar weithio o bell Cyfle i chi rannu eich barn ar ôl gweithio o bell, a sut brofiad oedd hynny i chi. Hefyd, o fwrw trem ymlaen, rhannu eich barn ynglŷn â pharhau i weithio gartref, ac yn ychwanegol unrhyw awgrymiadau sydd gennych ynghylch yr hyn y gallai'r Brifysgol ei wneud i wneud hynny mor effeithiol â phosibl. Caiff yr atebion a roddwch i gwestiynau'r adran hon eu rhannu gyda'r Adnoddau Dynol.